CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AELODAU

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif/phrif weithgarwch yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mai 2013. Mae wedi ei lunio er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

Cynghorydd: Joan Lowe **Plaid: Annibynnol**

Ward: Penycae a De Rhiwabon

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau
Rwyf yn aelod o'r pwyllgorau canlynol:

Bwrdd Gweithredol
Gweithgor Adolygu Rheoli Gwleidyddol
Gweithgor Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol
Panel Tâl a Gwobrwyo
Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau
CYSAG
Dirprwy Arweinydd Grŵp Annibynnol Wrecsam

Rwyf yn aelod o'r pwyllgorau allanol canlynol: (ffigyrau gan y Cynghorydd)

Cyngor Cymuned Penycae
Cyngor Cymuned Rhiwabon (Cadeirydd)
Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Penycae (Trysorydd)
Aelod o Gyngor Iechyd Cymuned, Wrecsam (Arweinydd ar ran Gofal Sylfaenol)
Llywodraethwr Ysgol Penycae (Cadeirydd)
Llywodraethwr Ysgol Rhiwabon
Grŵp Diogelwch Cymunedol

Adran 2: Gweithgarwch Etholaeth

- Yn ystod y 12 mis diwethaf rwyf wedi bod yn gweithio gyda Chynghorwyr o'r wardiau cyfagos i gael gosod gostyngiad cyflymdra traffig o 20mya, roedd hyn yn llwyddiannus gan ddefnyddio cyllid allanol.
- EVA rheolaidd ym Mhenycae a Rhiwabon gyda Goruchwyliwr Strydwedd, Swyddogion Cymorth Cymuned yr Heddlu ac aelod o staff o'r Adran Tai.
- Gweithio'n rheolaidd gyda'r Swyddogion Cymorth Cymuned yr Heddlu i fynd i'r afael â phryderon trigolion y ddwy ardal.
- Gweithio gyda'r ddau Gyngor Cymuned i gyflawni eu blaenoriaethau, ar gyfer trigolion y ddwy gymuned.
- Gweithio gydag Adran Priffyrdd i gael cwblhau cynllun draeniau Rhosymadoc.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Cydweithio gyda Phennaeth Ysgol Penycae a'r Corff Llywodraethu i uno'r Ysgol Iau a'r Ysgol Fabanod ar un safle (cyfunwyd y ddwy ysgol tua 5 mlynedd yn ôl).

Adran 4: Dysgu a Datblygu

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi mynychu nifer o weithdai a sesiynau hyfforddiant amrywiol.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Fel Dirprwy Arweinydd Grŵp Annibynnol Wrecsam, rwyf i ac Arweinydd y Grŵp wedi cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr nifer o weithiau mewn perthynas â meysydd pryder y Grŵp.

Mynychu Pwyllgorau Craffu i arsylwi trafodaethau am feysydd Gwasanaethau'r Cyngor sy'n peri pryder ac i arsylwi eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Fel ymddiriedolwr Tŷ'r Eos, rwy'n mynychu Cyfarfodydd y Bwrdd ac yn rhan o Is-Bwyllgor Cynhyrchu Incwm.